

Gwers 9 –
Adeiladu
eich cuddfan



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Goroesi

Lefel Gradd:

Teitl y Wers: Adeiladu eich Cuddfan

Amcan Dysgu:

- Fel dosbarth / mewn grwpiau bach, penderfynwch ar 9 Hawl Plant sy'n bwysig i ni ar gyfer goroesi a datblygu – gall yr athro ddewis ymlaen llaw os bydd angen.
- Mynegi syniadau a safbwyntiau ynghylch hawliau plant i ddatblygu llais y disgybl
- Gweithio fel tîm i lwyddo mewn tasg

Er budd y myfyrwyr, esboniwch beth bydd y myfyrwyr yn gallu ei wneud erbyn diwedd y wers a pham mae'n bwysig cyflawni'r amcanion hyn.

Bydd Rhai Dysgwyr: Yn gallu nodi'r hawliau allweddol sy'n bwysig er mwyn iddyn nhw ddatblygu a goroesi, gan gynnig syniadau a barn ynghylch pam mae hynny'n wir.

Bydd Mwyafrif y Dysgwyr: Yn gallu nodi hawl sy'n bwysig er mwyn iddyn nhw ddatblygu a goroesi

Bydd yr Holl Ddysgwyr: Yn datblygu ymhellach eu dealltwriaeth o hawliau plant yng nghyswllt goroesi

Cwestiynau Allweddol:

- Pwy sy'n gallu cofio beth ddysgon ni yn ein gwers hawliau ddiwethaf?
- Ydy unrhyw un yn gallu cofio hawl?
- Beth yw ystyr goroesi?
- Pwy sy'n gallu meddwl am rywbeth sydd ei angen arnon ni i oroesi?
- Pwy sy'n gallu meddwl am rywbeth sy'n ein helpu ni i ddysgu?

Deunyddiau / Adnoddau angenrheidiol:

- Stori Gymdeithasol – “Goroesi”
- Pecyn lluniau – “Goroesi”
- Cardiau Symbolau

- Gwrthrychau i gyfeirio atynt
- “Llyfryn Fy Hawliau i”
- Deunyddiau ar gyfer man cysgodi yn yr awyr agored
- Byrbryd iach/picnic

Cyflwyniad:

Crynowch y wers flaenorol, gan dynnu sylw at yr agweddau allweddol i'r disgyblion.

Gofynnwch i'r disgyblion pa hawliau plant maen nhw'n gallu eu cofio. Gofynnwch i'r disgyblion sôn am yr hawliau maen nhw'n meddwl sy'n bwysig i'n helpu i oroesi.

Cyfeiriwch yn ôl at eu gweithgaredd Diemwnt 9 o'r wers ddiwethaf.

Efallai y byddwch am edrych eto ar y Stori Gymdeithasol neu'r pecyn lluniau “Goroesi”.

Prif Weithgaredd:

Yn dilyn ymlaen o wers 8 (Helfa Hawliau), gall y disgyblion ddefnyddio ardal awyr agored (o dan do os bydd angen) a chydweithio fel tîm i ddylunio ac adeiladu cuddfan/cysgodfan fydd yn bodloni rhai meini prawf penodol fel:

Rhaid iddo fod yn ddyfrglos, yn gynnes ac yn ddigon mawr i 2 berson (enghraifft yw hon; gallwch ei haddasu at anghenion eich disgyblion).

Dylech gynnig cefnogaeth yn ôl y galw.

Profwch eich cysgodfannau i weld sut maen nhw'n perfformio a mwynhewch fyrbryd/picnic iach yn yr awyr agored – gallai hyn ddatblygu'n sesiwn goginio.

Tasg Estyn:

Yn dibynnu ar bolisi eich ysgol a gallu'r disgyblion, gallai fod yn gyfle gwyh i gyflwyno gwersi coginio yn yr awyr agored.

Sesiwn Lawn:

Fel dosbarth, crynhowch y wers yn fras a gofyn i'r disgyblion hunanasesu/asesu cysgodfannau ei gilydd. Beth ddysgon ni heddiw? Beth oedd eich hoff ran? Sut gallwn ni wella ein cysgodfannau?

Dysgu Ychwanegol Pellach (AFL):

Gall dealltwriaeth gael ei hasesu trwy holi ac adborth llafar. Bydd hunanasesu yn hybu AFL, wrth i'r ddysgwyr ddarparu rhesymau priodol a dangos dealltwriaeth o'r pethau mae arnyn nhw eu hangen er mwyn goroesi. Cyfeiriwch yn ôl at amcanion y wers – ydyn nhw wedi cael eu cyflawni?

Gwahaniaethu:

- Cefnogwch ddysgwyr sydd â nam ar eu clyw â iaith arwyddion briodol
- Cefnogwch ddysgwyr ag Anhwylderau Sbectrwm Awtistig/lefel isel â PECS / lluniau i gyfeirio atynt
- Gall ddysgwyr ag Anableddau Dysgu Dwys a Lluosog (PMLD) archwilio blwch synhwyrau i chwilio am y gwrthrychau cyfeiriadol priodol yn ystod y gweithgaredd cyflwyno.

Creuwyd y gwersi a'r gweithgareddau yma gan Jonathan Whitchurch o Ysgol Heronsbridge mewn partneriaeth gyda Chomisiynydd Plant Cymru. Rhannwch y gwaith rydych chi'n ei wneud ar hawliau gyda'r Comisiynydd Plant drwy drydaru [@complantcymru](https://twitter.com/complantcymru) neu e-bostio post@complantcymru.org.uk